**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Mick

Rwy'n ddiolchgar i'ch Pwyllgor am y gwaith y mae wedi'i wneud ar eich ymchwiliad i '*Lywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd*'. Mae'r adroddiad yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r trafodaethau pwysig sydd eu hangen ar oblygiadau Brexit ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac i'r trefniadau rhyng-sefydliadol sy'n ofynnol o ran y strwythurau gwleidyddol ar draws y DU.

Mae Argymhelliad 5, Argymhelliad 6 ac Argymhelliad 8 eich adroddiad yn ymwneud yn uniongyrchol â rôl y Llywydd wrth sefydlu Cynhadledd y Llefaryddion, a'r nod o benderfynu ar y ffordd orau o ddatblygu gwaith rhyng-seneddol ar ôl Brexit. Rwyf fi'n sicr o'r farn ei bod o werth archwilio'r cynigion hyn ac edrych yn fanwl sut y byddent yn gweithio'n ymarferol.

Fel y gwyddoch, cyflwynais i, ochr yn ochr â chi, dystiolaeth i Bwyllgor Gweinyddiaeth Cyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol San Steffan (PACAC) ar 5 Chwefror, fel rhan o'u hymchwiliad ar 'Ddatganoli ac Ymadael â'r UE', pan edrychwyd hefyd ar y posibiliadau o ran cynnal Cynhadledd y Llefaryddion. Mewn ymateb, fe wnes i ymrwymo i godi'r materion hyn fel eitem drafod bosibl yng nghyfarfodydd pedair ochrog y Llefaryddion.

Drwy gyfrwng diweddariad i'ch pwyllgor ac mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gennych, gallaf gadarnhau fy mod wedi cyflwyno'r argymhellion fel eitem ar yr agenda, i'w trafod yng nghyfarfod pedair ochrog nesaf y Llefaryddion ym mis Mai.

Byddaf yn diweddaru eich pwyllgor maes o law.

Yn gywir,

Elin Jones

Elin Jones AC
Llywydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403